# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 19eg o Fehefin 2023 am 7:10pm

Presennol: Cynghorydd Alan H. Jones (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Arwel Pierce, Bethan Lawton, Richard Jones Evans, Geraint Evans, Geraint Edwards, Richard C Evans

1. Ymddiheuriadau: Yr oedd pob un cynghorydd yn bresennol

2. Datgan diddordeb: Ni fu unrhyw Gynghorydd ddatgan buddiant

3. Derbyn cofnodion 15 Mai 2023:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

4. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| B Gwilym | Cyflog | 101846 | £210.26 |
| Cyllid a Thollau EM | YG | 101847 | £52.40 |
| Playsafety Ltd | ROSPA | 101848 | £106.80 |
| Cyngor Gwynedd | Ysbwriel | 101849 | £118.00 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau uchod.

5. Cyngor Gwynedd - Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant - cynllun rhannu cartref Gwynedd:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

6. Eglwys y Drindod Sanctaidd Penrhyndeudraeth - Gardd Llonyddwch:

Adroddwyd efallai y bydd gardd llonyddwch hefyd yn yr Eglwys yn Nhywyn.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
I roi copi o boster gardd llonyddwch Penrhyndeudraeth ar hysbysfwrdd y pentref.

7. Cylch Meithrin Bro Dysynni - cais i ddefnyddio'r cae chwarae a'r Pafiliwn ar gyfer digwyddiad:

**PENDERFYNIAD:** I ganiatáu defnydd am ffi o £1. Hysbysu'r cylch y bydd angen iddynt gael yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, gynnal asesiad risg, tacluso ar ôl y digwyddiad a bod yn gyfrifol am geir yn gadael y cae chwarae - yn ymuno gyda'r ffordd.
I hysbysu'r clwb pêl-droed am ddefnydd y cylch meithrin.

8. Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor Tref Tywyn - Afon Fathew/pryder am lifogydd - diweddariad:

Nid oedd diweddariad.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

9. Ysbyty Tywyn a'r Cylch – cau ward cleifion mewnol dros dro - diweddariad:

Derbyniwyd adroddiad llafar gan y Cynghorydd Bethan Lawton:
-Y Bwrdd Iechyd yn parhau i brofi'n anodd recriwtio nyrsys ar gyfer y ward
-Rhagor o gyfarfodydd yn cael eu cynnal
-Yr uned man anafiadau yn cael ei ail-agor erbyn yr haf

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
I anfon llythyr at yr Athro Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru gan ddatgan barn y cyngor, sef nad yw ei lywodraeth yn rhoi buddion i ardaloedd cefn gwlad ac nad yw materion

wedi gwella dros yr ugain mlynedd ddiwethaf ers datganoli - megis band eang, yr economi, y gwasanaeth iechyd, trafnidiaeth a bod polisïau fel gosod uchafswm 20mya yn mynd i gael effaith andwyol ar gymunedau gwledig anghysbell, sydd eisoes yn bell/allan o gyrraedd gwasanaethau cyhoeddus.

10. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:
-gwaith plymio yn mynd rhagddi – sef newid tapiau a sinc

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
I gysylltu gyda chwmni Scrubadub i sicrhau bod y Pafiliwn yn cael ei lanhau erbyn defnydd y cylch meithrin - yn ystod wythnos gyntaf mis Awst, a bod y clwb pêl-droed yn tynnu eu hoffer o'r pafiliwn er mwyn galluogi Scrubadub i lanhau yn effeithiol.
Angen cysylltu gyda'r contractwr torri gwair i sicrhau bod y cae yn cael ei dorri cyn digwyddiad y cylch meithrin ym mis Awst.
Angen dymchwel y pergola.

11. Cae Chwarae - Adroddiad ROSPA:

Adroddwyd y canlynol:
-yr oedd nifer o eitemau yn derbyn sylw yn yr adroddiad ond nid oedd yr un ohonynt wedi eu hadnabod yn risg uchel

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
Angen anfon ymlaen manylion am y pyst pêl-droed ymlaen at y CPD.
Y Cyng. Alan H Jones a'r Cyng. Geraint Evans i edrych ar y boltiau / pren sydd yn rhydd.
Y Cyng. Bethan Lawton i ofyn am argymhelliad PlayQuest ar gyfer postyn y siglen nyth sydd yn rhydd.

12. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Nid gwybodaeth i'w raeadru gan y Cynghorydd Sir.

Cafwyd cwestiynau gan gynghorwyr am drefn Ardal Ni ac nid oedd y tîm i weld yn weithredol yn ardal gan fod adnoddau'r Cyngor Sir yn cael ei ddefnyddio er mwyn paratoi ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan.

Adroddodd Cynghorydd bod damwain beiciau wedi bod ar y llwybr cerdded/beicio ger Ysguboriau.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
Y Cyng. Bethan Lawton i gyflwyno cais i Dîm Ardal Ni i gynnal gwaith clirio tyfiant ar ochr ffyrdd er mwyn gwella gweledEdd.

13. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Trafodwyd sefydlu grŵp Whatsapp ar gyfer cynghorwyr yn unig er mwyn rhaeadru penderfyniad ac i gael penderfyniad mewn argyfwng yn unig.

**PENDERFYNIAD:** I sefydlu grŵp whatsapp, gyda'r grŵp i fod ar sail treial tan ddiwedd y flwyddyn.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:10pm

Llofnod y Cadeirydd ..........................................................